**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 22 Mawrth 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | C Richards |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner, D Phillips, K M Roberts a/ac L V Walton
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Andrew Davies

---

**24 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**25 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi fel cofnod cywir.

**26 Rhannu Gerddi. (Llafar)**

Dywedodd y Cadeirydd ar lafar fod y cyngor, yn dilyn y cyflwyniadau gan Brosiect Room to Grow a Lend and Tend yn y cyfarfod blaenorol, wedi edrych ar sefydliadau eraill heblaw ei hun i sefydlu prosiect rhannu gardd. Tend and Lend oedd yr unig un a allai gynnal y prosiect yn realistig.

Ychwanegodd y byddai'r cyngor yn chwilio am ffyrdd o gefnogi'r ddau brosiect ac yn argymell bod pobl yn ymuno â nhw heb unrhyw atebolrwydd yn erbyn yr Awdurdod.

Dywedodd yr Is-gadeirydd fod diddordeb gwirioneddol yn y cynllun yn ei ward a thynnodd sylw at y ffaith y dylid ymchwilio i wahanol opsiynau o gysylltu pobl. Dywedodd hefyd y byddai cyfyngiadau parhaus COVID-19 yn achosi anawsterau nes iddynt gael eu llacio.

**Penderfynwyd** y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal mewn cyfarfod gweithgor.

## 27 Tyfu Bwyd Cymunedol. (Llafar)

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar a dywedodd fod Joanne Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi wedi drafftio polisi a oedd yn gofyn am drafodaethau pellach yng nghyfarfodydd gweithgor y Cynghorwyr a'r Swyddogion.

## 28 Ymgyrch Cynyddu Nifer Y Bobl Sy'n Hawlio Budd-daliadau. (Llafar)

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ynglŷn â'r Ymgyrch i Gynyddu'r Defnydd o Fudd-daliadau.

Dywedodd fod swyddogion, yn dilyn y cyflwyniad a ddarparwyd yn y cyfarfod blaenorol, wedi adrodd bod nifer y bobl sy'n manteisio arnynt yn isel ac nad oedd y llinell gymorth wedi derbyn nifer fawr o alwadau.

Ychwanegodd fod angen trafodaethau pellach mewn cyfarfod gweithgor i gytuno ar y dull gorau o hyrwyddo'r defnydd o fudd-daliadau.

**Penderfynwyd** y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal mewn cyfarfod gweithgor.

## 29 Tegwch o Fewn y Polisi Iechyd Gwyrdd. (Llafar)

Dywedodd y Cadeirydd ar lafar fod y gwaith o ddatblygu'r polisi dan reolaeth Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd ar hyn o bryd a bod angen gwneud cynnydd pellach er mwyn i'r polisi gael ei fabwysiadu.

## 30 Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy. (Llafar)

Rhoddodd Anthony Richards, Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar lafar ynghylch Hyrwyddo Polisi Credyd Fforddiadwy.

Amlinellodd fod y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cytuno ar y polisi drafft a'i fod gyda chyfieithwyr Cymraeg ar hyn o bryd cyn iddo gael ei ddosbarthu ar gyfer ymgynghoriad.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 31 Polisi Dyledion Corfforaethol. (Llafar)

Dywedodd y Cadeirydd ar lafar y byddai'n rhaid cynnal trafodaethau pellach yn ystod cyfarfod gweithgor yn y dyfodol er mwyn gwneud cynnydd.

**32 Rhoi'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar Waith. (Llafar)**

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar lafar am Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a sut y byddai'n effeithio ar benderfyniadau strategol yn yr Awdurdod o 31 Mawrth 2021. Ychwanegodd fod sesiynau briffio wedi'u trefnu i bob Cynghorydd fod yn bresennol ynddynt er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol ac y byddai'n dosbarthu dolen ynghylch canllawiau i'r pwyllgor.

**33 Cynllun Gwaith 2020-2021.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2020-2021. Dywedodd nad oedd y pwyllgor wedi edrych ar Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol na Chludiant Cyhoeddus. Ychwanegodd fod dau bwyllgor arall yn archwilio cludiant cyhoeddus, pob un o'i safbwynt ei hunan ac roedd posibilrwydd y dylid trefnu cyfarfod ar y cyd ar gyfer y tri phwyllgor i drafod y pwnc.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.45 pm

**Cadeirydd**